**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Rhagfyr 2012**

**ALLDRO AMCANOL 2012-2013**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn i roi i'r Aelodau yr alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2012-13.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion cyfredol yw y bydd £363,007 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r tanwariant amcangyfrifiedig yn fychan o'i gymharu â chyllideb o £32 miliwn. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r union wariant hyd at ddiwedd Tachwedd, ac mae'n amcangyfrif y gwariant am y pedwar mis olaf o'r flwyddyn. Ni fydd y llifogydd diweddar yng Ngogledd Cymru yn cael effaith ariannol ar y gwasanaeth tan fis Rhagfyr, pan wneir y taliadau am yr adegau y cawson ein galw allan ym mis Tachwedd (mae'n bosibl y gellid cael rhywfaint o'r costau yn ôl trwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys). Os bydd y cyfnod o dywydd garw yn parhau, bydd y tanwariant yn llai oherwydd bydd angen adnoddau ychwanegol i ariannu'r ffioedd galw allan. Oherwydd yr ansicrwydd hwn argymhellir mai dim ond nodi'r tanwariant y dylai'r Aelodau ei wneud ar hyn o bryd.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 O fewn y gyllideb ar gyfer Diffoddwyr Tân–Amser Cyflawn, mae targed o £500k o arbedion y cytunwyd arno gan yr Aelodau yn ystod y broses o osod y gyllideb. Mae'r alldro amcangyfrifiedig yn cadarnhau y bydd arbediad; a gwneir hyn trwy ymddeoliadau y mae'n hysbys y byddant yn digwydd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â pheidio â recriwtio i'r ochr amser cyflawn. Roedd y targed arbedion i'w sicrhau trwy gyflwyno system gylchrestru newydd a oedd yn golygu bod 22 yn llai o swyddi Diffoddwyr Tân. Y gobaith oedd bod modd sicrhau'r gostyngiad yn nifer y diffoddwyr tân trwy ddull naturiol ymddeoliadau. Roedd yr adroddiad alldro diwethaf a gyflwynwyd i'r Aelodau ar 15 Hydref yn amcangyfrif na ellid cyrraedd y targed arbedion o lawer o faint (£481k). Fodd bynnag, ers yr adroddiad diwethaf, mae'r sefyllfa wedi newid a chafwyd twf yn nifer y staff ar yr ochr amser cyflawn sydd wedi gadael, neu a fydd yn gadael, y gwasanaeth, ac mae hyn wedi lleihau'r maint i £211k.

6 Mae'r tanwariant amcangyfrifedig ar ddiffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf, o £279k i £435k. Ataliwyd y cynnydd yn y tanwariant oherwydd bod y recriwtio wedi ei atal yn erbyn y gorwariant hysbys ar ddiffoddwyr tân amser cyflawn. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn y ffioedd cadw a'r ffioedd galw allan. Darperir y gofal ar rai gorsafoedd y system ar gael yn ôl galw gan ddiffoddwyr tân o 'Gronfa Adnoddau'r Ochr Weithredol' (sefydlwyd 'Cronfa' er mwyn darparu gofal pan fo absenoldebau pan gyflwynwyd y system gylchrestru newydd ar gyfer dyletswyddau. Yn y gronfa, ceir pobl sydd wedi gwirfoddoli i gael eu secondio o orsafoedd tân i'r gronfa.) Fodd bynnag, mae'n dal yn berygl y gallai nifer o ddigwyddiadau mawr dros y pedwar mis nesaf yn hawdd droi'r tanwariant yn ddiffyg yn y gyllideb.

7 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i ailstrwythuriad a arweiniodd at swyddi gwag yn cael eu llenwi'n hwyrach na'r amcangyfrif, a nifer y swyddi a oedd heb gael eu llenwi ar y pryd.

Gyda'r angen i wneud arbedion yn y blynyddoedd a ddaw, disgwylir y caiff nifer o'r swyddi gwag hyn eu dileu.

8 Mae'r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sydd heb gael ei llenwi eto yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd.

9 Bydd y pennawd Amrywiol yn y gyllideb yn cael ei orwario yn bennaf oherwydd bod cynnydd yng nghyfraniad yswiriant gwladol y cyflogwyr yn ddyledus ar ddefnyddwyr ceir prydles yn dilyn adolygiad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

10 Mae'r gorwariant ar bensiynau Llywodraeth Leol oherwydd y taliad a wnaed gan y cyflogwr i'r gronfa bensiynau i ymorol am gostau gweithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar. Bydd hyn wedyn yn golygu bod yr awdurdod yn arbed y costau cyflogi yn y dyfodol mewn perthynas â'r swyddi hyn.

**Safleoedd**

11 Ar gyllideb y safleoedd, y prif rannau o orwariant fydd costau ynni ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (*NNDR*). Mae costau ynni wedi codi'n sylweddol, ac er bod cynlluniau yn eu lle i ddefnyddio llai, mae'r cynnydd yng nghost unedau yn fwy na'r arbedion a geir trwy ddefnyddio llai. Gellir priodoli'r tanwariant ar Ardrethi Annomestig yn bennaf i'r cynnydd yn yr ardrethi sy'n daladwy ar gyfer Llangefni yn dilyn ailwerthuso'r safle wedi'r gwaith adnewyddu diweddar.

12 Mae'r tanwariant ar Rent oherwydd prynu'r Pencadlys yn ddiweddar, ac mae hyn wedi arwain at arbedion ar rent, ond costau ychwanegol o dan Gyllido Cyfalaf. Mae'r sefyllfa wirioneddol yn arbediad blynyddol i'r Awdurdod, a'r adeilad ym meddiant yr Awdurdod.

**Cludiant**

13 Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod gorwariant o £10k yn y gyllideb Cludiant. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghostau tanwydd.

## Cyflenwadau

14 Bydd gorwariant ar gyfarpar yr ochr weithredol, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â'r contractau hydroleg a oedd yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol.

15 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd oedi wrth gyflwyno'r gwaith datblygu sydd wedi arwain at arbediad ar gostau Firelink yn y flwyddyn gyfredol.

16 Mae'r tanwariant ar Gostau Cyfrifiaduron oherwydd trafodaethau gyda chwmnïau meddalwedd i leihau costau trwyddedau, a phenderfyniad i gadw rhai o'r llwyfannau gweithredu presennol er mwyn lleihau costau.

17 Bu gostyngiad yn y premiymau yswiriant yn dilyn proses dendro gystadleuol.

18 Mae'r gorwariant ar danysgrifiadau oherwydd y cynnydd yng nghost aelodaeth Cymdeithas Prif Swyddogion Tân nad oedd yn hysbys ar adeg gosod y gyllideb wreiddiol.

## Gwasanaethau Cefnogol

19 Bydd y gorwariant amcangyfrifiedig ar Reoli Cyfleusterau yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn incwm o ffioedd cyfalaf, a dangosir hyn yn yr adran ar incwm ar dudalen olaf yr atodiad. Fodd bynnag, ni ellir cael yr holl gostau ychwanegol yn ôl oherwydd llithriant ar y rhaglen gyfalaf, gan arwain at sefyllfa lle mae'r staff cyfleusterau'n gweithio mwy ar y rhaglen gynnal a chadw flynyddol na ellir ailgodi tâl amdanynt.

## Cyllido Cyfalaf

20 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi ar rai prosiectau mawr megis gorsaf dân Wrecsam. Cynhwyswyd llinell ychwanegol dan y pennawd hwn i ddangos y ffioedd am brynu'r pencadlys fel y nodir ym mharagraff 12.

## Incwm

21 Mae'r incwm ar Werthu yn ymwneud yn bennaf â'r incwm a geir o gael gwared ar nifer o gerbydau nad oes mo'u hangen mwyach ar y Gwasanaeth. Mae'n anodd gweld mewn unrhyw flwyddyn faint a dderbynnir gan ei bod yn dibynnu pa geir sy'n mynd yn ystod y flwyddyn a'r swm a geir ar adeg arwerthiant.

22 Mae'r incwm am Alwadau Gwasanaeth Arbennig yn llai na'r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y mae'r Awdurdod yn anfonebu amdanynt. Hefyd, bu gostyngiad yn yr incwm a enillwyd trwy gyrsiau hyfforddi allanol, oherwydd penderfynwyd mai defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau yw cyflwyno'r neges diogelwch tân cymunedol i'r gymuned fusnes.

23 Mae'r llog ar falansau hefyd yn is na'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel sy'n gyffredin. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyfatebol yn y llog i'w dalu ar fenthyciadau yn gwneud mwy na iawn am hynny.

## Cyfraniad i Gronfeydd wrth gefn

24 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 19 Tachwedd 2012, cytunwyd y dylai'r swyddogion fwrw ymlaen i brynu'r orsaf ambiwlans yng Nglannau Dyfrdwy sy'n sownd i'r orsaf dân. Y dewis mwyaf cost-effeithiol o ran gwneud gwaith ailddatblygu mawr i'r safle yw petai'r tir a'r adeiladau, sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd, yn dod i feddiant yr Awdurdod Tân. Cytunodd yr Aelodau y gellid ariannu'r gost o brynu o'r tanwariant refeniw yn 2012/13, felly neilltuwyd £127k i ariannu'r pryniant.

25 Bu llai o wariant ar hyfforddi oherwydd gostyngiad yn nifer y recriwtiaid newydd sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth, a'r angen i ganfod dulliau mwy cost-effeithiol o hyfforddi. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod gan staff yr ochr weithredol y cymhwyster cenedlaethol newydd mewn rheoli digwyddiadau, argymhellir neilltuo 75k o'r tanwariant ar gyfer cyrsiau Rheoli Digwyddiadau.

26 Fel y bydd yr Aelodau'n ymwybodol, mae'r diffoddwyr tân ar y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw wedi derbyn ôl-dâl yn gysylltiedig â'u cais dan Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser

(Triniaeth Lai Ffafriol) 2000. Nid oedd y cytundeb yn ymestyn i'r cais pensiynau. Mae trafodaethau'n mynd ymlaen rhwng Undeb yr FBU a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, a fyddai'n rhoi mynediad am yn ôl i gronfa bensiynau'r diffoddwyr tân. Gwnaed asesiad o'r hyn fyddai'r costau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru petai cyfraniad y cyflogwr i'r diffoddwyr tân hynny ar y system yn ôl y galw, sydd â gwasanaeth rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006, yn cael ei ôl-ddyddio, a'r disgwyl yw mai'r gost i'r Awdurdod fydd tua £960k ar y mwyaf. Oherwydd y posibilrwydd hwn, doeth fyddai neilltu arian o'r tanwariant yn erbyn unrhyw ymrwymiadau yn y dyfodol os deuir i gytundeb ar setliad. Felly, cynigir neilltuo £300k yn erbyn y costau hyn.

## Argymhellion

27 Bod yr Aelodau'n nodi'r tanwariant amcangyfrifiedig, ac yn cytuno mewn egwyddor i osod arian o'r neilltu i gronfeydd wrth gefn fel y nodir uchod.